Hawdd ei Ddeall

Shaping Our Future Wellbeing

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Cynllunio ar gyfer ein Llesiant yn y Dyfodol

## Ein cynlluniau i wella iechyd a llesiant yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg erbyn 2035



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Strategaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hyd at 2035 - Llunio ein Llesiant yn y Dyfodol**'.

**Medi 2023**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i’w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.



Mae’r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae’r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 29**.

Lle mae’r ddogfen yn dweud ni mae hyn yn meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.shapingourfuturewellbeing.com/cy

**E-bost:** news@wales.nhs.uk

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**.

# Cynnwys


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma ........ 2**

**Amdanom ni ........ 4**

**Beth sydd yn y ddogfen yma ........ 6**

**Ein hamcanion ar gyfer 2035 ........ 8**

**Ein Gwerthoedd ........ 9**

**Am ein hamcanion ........ 10**

1. Rhoi pobl yn gyntaf ........ 10
2. Darparu'r gwasanaethau o'r ansawdd gorau ........ 15
3. Darparu gofal yn y mannau cywir ........ 18
4. Gweithredu ar gyfer y dyfodol ........ 23

**Beth fydd yn digwydd nesaf ........ 27**

**Geiriau Anodd ........ 29**

# Amdanom ni

Ni ydy **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro**.



Ein prif amcanion ydy:

- helpu pobl i fyw’n dda,
- a rhoi gofal a thriniaeth ardderchog.



Rydyn ni yn gweithio gyda phartneriaid mewn gofal cymdeithasol ac mewn gwasanaethau gwirfoddol i ddarparu:



- Gofal sylfaenol – y lle cyntaf mae pobl yn mynd pan fyddan nhw angen gwasanaethau gofal iechyd.



- Gwasanaethau atal – i stopio pobl rhag mynd yn sâl, neu i stopio problemau rhag mynd yn waeth.



- Gwasanaethau cymunedol.




- Gofal ysbyty a gwasanaethau arbenigol.



- Gofal brys ac argyfwng.



- Triniaethau gofal wedi’u cynllunio.




- Gwasanaethau meddygon teulu.




Rydyn ni yn gweithio gyda sefydliadau a phartneriaid addysg i hyfforddi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

# Beth sydd yn y ddogfen yma



Rydyn ni wedi gwneud cynlluniau ar sut i wella iechyd a llesiant yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg erbyn 2035.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau rydyn ni yn eu cynnig yn helpu i wella llesiant pobl.




Fe wnaethon ni ysgrifennu'r **Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol** gyntaf yn 2013. Mae ein blaenoriaethau wedi newid ers i ni ddatblygu'r strategaeth yn 2013.




Mae angen i ni ganolbwyntio ar bethau fel effaith COVID-19, **newid yn yr hinsawdd** ac **anghydraddoldebau iechyd**.



Mae **newid yn yr hinsawdd** yn meddwl bod ein tywydd yn newid dros gyfnod hir. Fel ardaloedd yn mynd yn fwy cynnes neu yn fwy oer a chael mwy o law. Mae hyn yn achosi problemau fel llifogydd a thanau gwyllt.



**Anghydraddoldeb iechyd** ydy pan fydd gan grwpiau o bobl wahaniaethau annheg yn eu hiechyd o'i gymharu â grwpiau eraill. Mae hyn yn gallu digwydd oherwydd eu rhyw, faint o arian sydd ganddyn nhw, cefndir eu teulu neu lle maen nhw'n byw.




## Ein hamcanion newydd ydy:

1. Rhoi pobl yn gyntaf.

2. Darparu gwasanaethau o'r ansawdd gorau.

3. Darparu gofal yn y mannau cywir.

4. Gweithredu ar gyfer y dyfodol.




Rydyn ni eisiau diolch i bawb sydd wedi ein helpu i ddatblygu'r cynllun yma drwy roi adborth drwy ddigwyddiadau ac arolygon.




Mae'r ddogfen yma am ein hamcanion ar gyfer ein gwaith tan 2035 a sut rydyn ni yn bwriadu eu cyflawni.

# Ein hamcanion ar gyfer 2035

Erbyn 2035 rydyn ni yn bwriadu:



- Gweithio gyda'n gilydd i wella iechyd.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn derbyn gwasanaethau iechyd yn deg.



- Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.



- Gwneud yn siŵr bod cleifion a staff yn cael y profiadau gorau.

# Ein Gwerthoedd



Gwerthoedd ydy'r pethau sy'n bwysig i ni.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y gwerthoedd yma yn ein holl waith:



- Bod yn garedig ac yn ofalgar.



- Bod yn barchus.



- Bod ag ymddiriedaeth a meddwl beth rydyn ni yn ei ddweud.




- Pawb i fod yn gyfrifol.

# Am ein hamcanion




Mae gennym ni 4 prif nod a phethau y byddwn ni yn eu gwneud i'w cyflawni.

## 1. Rhoi pobl yn gyntaf

Fe fyddwn ni yn:



- Bod yn lle gwych i bobl hyfforddi, gweithio a byw.



- Cefnogi pobl i fyw bywydau hirach ac iachach.



- Gwrando ar ein staff a'n cymunedau.



- Cael staff o wahanol gefndiroedd.




- Cefnogi staff i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg.



- Parchu pawb a thrin pobl yn gyfartal ac yn deg.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod lle maen nhw'n gallu dod o hyd i help a chefnogaeth pan fyddan nhw ei angen.




- Cyflogi staff medrus a gofalgar.

## Sut y byddwn ni yn gwneud hyn

**1. Gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.**

**Erbyn 2027 rydyn ni eisiau:**




- Hanner ein staff i gymryd rhan yn yr arolygon staff cenedlaethol a gweithgareddau eraill i wneud yn siŵr bod eu lleisiau'n cael eu clywed.




- Cyflawni ein set gyntaf o nodau sydd wedi cael eu hysgrifennu yn y **cynllun Pobl a Diwylliant**, sy'n cynnwys cadw mwy o staff a staff yn cymryd llai o ddiwrnodau salwch.

**Erbyn 2035 rydyn ni eisiau:**



- Defnyddio beth mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni i wella gwasanaethau.



- Dros hanner ein staff i gymryd rhan yn yr arolwg staff cenedlaethol.



- Cyflawni ein set nesaf o nodau sydd wedi cael eu hysgrifennu yn y **cynllun Pobl a Diwylliant** sy'n cynnwys cadw mwy o aelodau staff a staff yn cymryd llai o ddiwrnodau salwch.

## 2. Bod yn gynhwysol a bod â staff amrywiol.

**Erbyn 2027 rydyn ni eisiau:**



- Dilyn ein cynlluniau **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** i wneud yn siŵr bod ein staff o gefndiroedd gwahanol.




- 1 o bob 4 aelod o staff i allu siarad rhywfaint o Gymraeg.




- Darparu mwy o wasanaethau yn y Gymraeg drwy wneud sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer mwy o swyddi.

**Erbyn 2035 rydyn ni eisiau:**



- Staff o wahanol gefndiroedd sy'n gweithio ar bob lefel.




- 13 allan o 20 aelod o staff i allu siarad rhywfaint o Gymraeg.




- Cael gwasanaethau gofal ar gael yn Gymraeg heb i bobl orfod gwneud trefniadau arbennig.

**3. Helpu pobl i fyw bywydau iach a lleihau eu risg o salwch.**

**Erbyn 2027 rydyn ni eisiau:**



- Dynion i ddisgwyl byw am hyd at 80 oed, a hyd at 84 oed i ferched.

**Erbyn 2035 rydyn ni eisiau:**



- Nifer y blynyddoedd mae dynion yn gallu disgwyl byw hyd at bron i 81 oed, a hyd at 85 oed i fenywod.

## 2. Darparu'r gwasanaethau o'r ansawdd gorau



Fe fyddwn ni yn:

- Darparu'r gwasanaethau gorau ar yr amser iawn.



- Bod yn garedig ac yn ofalgar.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un lefel o wasanaethau.



- Llai o **anghydraddoldebau iechyd**.



- Gwneud yn siŵr bod cleifion yn cael y profiadau gorau o'n gwasanaethau.



- Helpu pobl i fyw'n hirach. Mae pobl o gymunedau tlawd yn byw bywydau byrrach. Rydyn ni eisiau newid hyn.



- Darparu cefnogaeth i bobl ifanc ar gyfer eu llesiant meddyliol.



- Darparu'r gofal gorau yn ein holl gymunedau.



- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gofal i bobl yn y cartref ac yn y gymuned.



- Darparu gofal ysbyty i gleifion pan fydd niangen.

## Sut y byddwn ni yn gwneud hyn

**1. Canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd. Gwneud yn siŵr bod gan bobl fynediad at wasanaethau.**



Fe fyddwn ni yn parhau i weithio i leihau faint o **anghydraddoldebau iechyd** y mae pobl yn eu wynebu. Rydyn ni eisiau gweld hyn yn gwella dros amser.

**2. Darparu gwasanaethau diogel ar yr amser iawn.**



Fe fyddwn ni yn parhau i weithio i ddod yn un o'r darparwyr gofal iechyd gorau yn y DU.

**3. Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau fel adeiladau, arian ac offer i wella gwasanaethau.**

Fe fyddwn ni yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau a'n hadnoddau i:



- Cefnogi pobl i fyw bywydau iach.



- Lleihau'r risg o salwch.



- Darparu mwy o wasanaethau yn y gymuned.

# 3. Darparu gofal yn y mannau cywir

Fe fyddwn ni yn:

- Cael offer a systemau cyfrifiadurol i gefnogi **data amser real**.



**Data amser real** ydy gwybodaeth sydd ar gael i bobl yn fuan ar ôl ei gael. Fe fydd gwahanol dimau, cleifion a theuluoedd arbenigol yn gallu edrych ar wybodaeth a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd.



- Rhoi eu gwybodaeth i bobl i'w helpu i reoli eu hiechyd a'u llesiant.



- Gwneud yn siŵr bod ein hadeiladau a'n lleoedd rydyn ni yn darparu gofal ynddyn nhw yn helpu ein cleifion i wella a staff i weithio'n dda.




- Darparu gwasanaethau gofal lle mae pobl eu hangen. Yn agos i'r cartref neu yn y cartref lle mae hynny'n bosibl.



- Darparu'r gwasanaethau sydd wedi eu cynllunio orau gydag offer o ansawdd uchel.



- Cael cyfleusterau i gefnogi ymchwil a hyfforddiant o ansawdd uchel.

## Sut y byddwn ni yn gwneud hyn

**1. Offer a systemau digidol i helpu staff, partneriaid a chleifion i gyfathrebu a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd.**

**Erbyn 2027 rydyn ni eisiau:**



- System iechyd a gofal digidol. Mae hyn yn meddwl bod cofnodion gofal ar gael ar-lein a bod pawb sydd angen yn gallu ei weld a'i ddefnyddio i wneud penderfyniadau sydd wedi eu cysylltu gyda'i gilydd.



- Cadw’r holl gofnodion ar-lein. Fe fydd yr holl wybodaeth am ofal cleifion o’u genedigaeth hyd at farwolaeth ar-lein. Gan gynnwys gwasanaethau gofal yn y cartref. Fe fydd pob bwrdd iechyd yn gallu rhannu gwybodaeth.

**2. Cael canolfannau iechyd a gofal sydd wedi cysylltu gyda’i gilydd mewn cymunedau lleol lle mae pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chymorth mewn un lle.**



**Erbyn 2027 rydyn ni eisiau:**

- Hanner y bobl sy’n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i allu defnyddio canolfan iechyd a gofal sydd wedi cysylltu gyda’i gilydd.

**Erbyn 2035 rydyn ni eisiau:**



- 4 o bob 5 person yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i allu defnyddio canolfan iechyd a gofal sydd wedi cysylltu gyda’i gilydd.

**3. Mwy o adeiladau a chyfleusterau sydd yn cael eu rhannu gyda sefydliadau cyhoeddus a phreifat.**

**Erbyn 2027 rydyn ni eisiau:**



- Gweithio ar gynlluniau i wella Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau a’u gwneud yn **ysbytai clyfar**. Mae **ysbyty clyfar** yn ysbyty sy’n defnyddio technoleg i wella gofal cleifion.



- Datblygu cyfleusterau Gwyddor Iechyd. Mae gwyddor iechyd yn meddwl ymchwil sy’n rhoi tystiolaeth i roi’r gofal iechyd gorau.




- Defnyddio canolfannau rhanbarthol fel Parc Iechyd Llantrisant ar gyfer gofal wedi’i gynllunio.



- Agor **Canolfan Genomeg Cymru Gyfan** ym M**harc Gwyddoniaeth Bywyd City Edge Caerdydd**.


**Erbyn 2035 rydyn ni eisiau:**



- Ysbyty Athrofaol Cymru gwell i fod yn barod. Fe fydd mwy o gynnydd yn cael ei wneud ar y cynlluniau i ailddatblygu Ysbyty Athrofaol Llandochau.



- Ein holl gyfleusterau i fodloni'r safonau sydd yn cael eu gosod gan sefydliadau sy'n edrych ar gyfleusterau.



- Gweithio gyda'n sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau patholeg sydd yn cael eu rhannu. Patholeg ydy'r astudiaeth o glefydau.



- Parhau i weithio gyda'r **Parc Gwyddoniaeth Bywyd yn City Edge**.

# 4. Gweithredu ar gyfer y dyfodol



Fe fyddwn ni yn:

- Gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau rydyn ni yn eu datblygu yn helpu pobl nawr ac yn y dyfodol.



- Datblygu a defnyddio triniaethau a thechnegau newydd i ddarparu'r gofal iechyd gorau i bobl nawr ac yn y dyfodol.



- Amddiffyn yr amgylchedd. Erbyn 2030 fe fyddwn ni yn lleihau faint o **garbon** rydyn ni yn ei ryddhau. Mae carbon yn gwneud niwed i'r amgylchedd.



- Gwneud mwy o ymchwil i barhau i wella.



- Meddwl am ofalu am y blaned yn ein holl waith.



- Gwneud cynlluniau ar gyfer anghenion pobl y dyfodol.


## Sut y byddwn ni yn gwneud hyn

1. **Gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd a phartneriaid eraill i ddatblygu ein hymchwil a'n hyfforddiant.**

**Erbyn 2027 rydyn ni eisiau:**




- Gwneud mwy o **dreialon clinigol**. Mae **treialon clinigol** yn profi dulliau triniaeth newydd.




- Agor Canolfan Ymchwil Canser Caerdydd.

**Erbyn 2035 rydyn ni eisiau:**




- Parhau i wneud hyd yn oed mwy o dreialon clinigol.

**2. Datblygu triniaethau, technegau a thechnolegau i wella gofal iechyd.**

**Erbyn 2027 rydym eisiau:**



- Pob claf cymwys i allu cael therapïau datblygedig yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol.

**Erbyn 2035 rydyn ni eisiau:**



- Bod yn lle ar gyfer darparu therapïau datblygedig o ansawdd uchel.



- Pob claf cymwys i gael therapïau datblygedig yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol.

**3. Cyfrannu at yr economi.**

**Erbyn 2027 rydyn ni eisiau:**



- Rhoi cyfle i gymunedau lleol wneud cais am waith i gefnogi cynllunio a darparu ein gwasanaethau.

**Erbyn 2035 rydyn ni eisiau:**



- Rhoi mwy o gyfleoedd i gymunedau lleol wneud cais am waith i gefnogi cynllunio a darparu ein gwasanaethau.

**4. Cefnogi teithio llesol a chynaliadwy i staff ac ymwelwyr. Lleihau gwastraff fel rhan o'n rhaglen ansawdd.**

Mae **cynaliadwy'n** meddwl y bydd rhywbeth yn para am amser hir ac yn gweithio mewn ffordd sydd ddim yn gwneud niwed i'n hamgylchedd.



Rydyn ni eisiau parhau i weithio ar leihau'r effaith y mae'r **carbon** rydyn ni yn ei ryddhau yn ei gael ar ein hamgylchedd.



Erbyn 2035 rydyn ni eisiau cydbwyso faint o **garbon** rydyn ni yn ei ryddhau gyda faint rydyn ni yn ei lanhau o'r awyr.

# Beth fydd yn digwydd nesaf

## Sut y byddwn ni yn gweithio



Fe fydd pawb yn cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan yn eu penderfyniadau gofal ac iechyd.



Fe fydd **cyd-gynhyrchu** yn bwysig yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud i wella ein gwasanaethau.

Mae **cyd-gynhyrchu** yn meddwl bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad. Maen nhw yn cael eu hystyried yn bartneriaid cyfartal gyda gweithwyr proffesiynol.



Fe fydd atal yn ganolog i'r gofal rydyn ni yn ei ddarparu. I stopio salwch cyn iddo ddigwydd a gweithredu'n gynnar cyn iddo fynd yn waeth.



Fe fyddwn ni yn gwneud cynlluniau iechyd a gofal ar gyfer anghenion pobl y dyfodol.



Fe fyddwn ni yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau ar gyfer y presennol a’r dyfodol.



Fe fydd gennym ni raglenni cyflawni a chynlluniau i helpu i gyflawni ein nodau.



Fe fyddwn ni yn adolygu’r cynllun cyflawni bob blwyddyn ac yn gwneud newidiadau os oes angen.



Fe fyddwn ni yn edrych ar ein cynnydd.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn gwybod sut y byddwn ni yn gweithio i gyflawni ein nodau.




Fe fyddwn ni yn adolygu’r **Cynllun Llunio ein Llesiant yn y Dyfodol** ac yn gwneud newidiadau os oes angen i wella gofal iechyd.

# Geiriau Anodd

## Anghydraddoldeb iechyd

Anghydraddoldeb iechyd ydy pan fydd gan grwpiau o bobl wahaniaethau annheg yn eu hiechyd o'i gymharu â grwpiau eraill. Mae hyn yn gallu digwydd oherwydd eu rhyw, faint o arian sydd ganddynt, cefndir eu teulu neu ble maen nhw'n byw.

## Cyd-gynhyrchu

Mae cyd-gynhyrchu yn meddwl bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad. Maen nhw yn cael eu hystyried yn bartneriaid cyfartal gyda gweithwyr proffesiynol.

## Cynaliadwy

Mae cynaliadwy'n meddwl y bydd rhywbeth yn para am amser hir ac yn gweithio mewn ffordd sydd ddim yn gwneud niwed i'n hamgylchedd.

## Newid hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn meddwl bod ein tywydd yn newid dros gyfnod hir. Fel ardaloedd yn mynd yn fwy cynnes neu yn fwy oer a chael mwy o law. Mae hyn yn achosi problemau fel llifogydd a thanau gwyllt.